



ADRODDIAD EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

2023-2024



1. Cyflwyniad

Mae Coleg Cambria wedi ymrwymo i fod yn goleg cwbl gynhwysol, lle mae cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'u hymgorffori yn gyfannol trwy gydol ein gwasanaethau. Rydym yn ymdrechu i greu Coleg Cambria sydd yn gynhwysol, yn gefnogol, yn deg, yn garedig, yn ddiogel ac yn ddeallus. Yng Ngholeg Cambria, rydym wedi ymrwymo i ryddhau cymunedau sy'n cael eu hymyleiddio mewn cymdeithas drwy nodi a thynnu rhwystrau sy'n eu hatal rhag ffynnu'n deg. Mae'r coleg wedi ymrwymo i sicrhau bod ein hagwedd at gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wedi'i hategu gan ddull croestoriadol a chyfunol. Rydym yn sylweddoli bod llawer o grwpiau a phobl yn profi gwahaniaethu mewn cymdeithas oherwydd eu hunaniaeth. Rydym yn mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o fynd i'r afael â bob ffurf ar wahaniaethu, ac rydym am gefnogi a gwerthfawrogi pob aelod o'n cymuned waeth beth fo'u hunaniaeth, eu nodweddion, neu beth bynnag sy'n eu gwneud nhw yn bwy ydyn nhw. Disgwylir i bob aelod o gymuned Coleg Cambria drin ei gilydd gyda pharch, urddas a charedigrwydd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym wedi datblygu dull newydd o ymdrin â chydraddoldeb ac amrywiaeth drwy archwilio ein statws presennol ac ehangu cyrhaeddiad a mynychder Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (CA&C) ledled y coleg. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran gwella CA&C yn ein coleg, fodd bynnag rydym yn gwella'n barhaus. Byddwn yn parhau i fod yn rhagweithiol o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac yn creu Coleg Cambria lle mae pawb yn cael eu gwerthfawrogi a'u rhyddhau.

Wrth i ni ymdrechu i wella ein darpariaeth CA&C yn ein sefydliad, rydym am ganolbwyntio ar yr effaith y mae hyn yn ei chael ar ein cymuned. Bydd yr Adroddiad Effaith ar Gydraddoldeb hwn yn adolygu'r datblygiad rydym wedi'i wneud o dan ein hamcanion cydraddoldeb, ond hefyd yr effaith rydym wedi'i chael ar wella cydraddoldeb yng Ngholeg Cambria. Bydd hefyd yn cyhoeddi ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb sy'n dangos y camau y byddwn yn eu cymryd dros y 12 mis nesaf i gynnal ein hamcanion cydraddoldeb.

Mae Coleg Cambria wedi sefydlu ei hun yn gyflym fel darparwr addysg blaenllaw yn y Deyrnas Unedig. Prif flaenoriaeth y Coleg yw darparu addysgu a dysgu rhagorol, er mwyn ymestyn, herio ac ysbrydoli pob dysgwr i archwilio a chyflawni eu llawn botensial. Fel un o'r colegau mwyaf yn y Deyrnas Unedig, mae gan Goleg Cambria 6,300 o fyfyrwyr llawn amser a 6,500 o ddysgwyr rhan-amser. Ar draws ei chwe safle, mae Cambria yn cynnig amrywiaeth eang o gysiau llawn amser a rhan-amser gan gynnwys Safon Uwch, cymwysterau galwedigaethol, rhaglenni Cymraeg i Oedolion ac Addysg Uwch. Gan weithio mewn partneriaeth â thros 1,000 o gyflogwyr, mae'r coleg hefyd yn cynnig llawer o gyfleoedd Prentisiaeth a Hyfforddeiaeth gyda chysylltiadau cryf â chyflogwyr lleol.



Yngylch Coleg Cambria

1. Cyflwyniad

Y Gyfraith

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyflwyno un Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae'r Ddeddf yn gwahardd gwahaniaethu mewn cyflogaeth, addysg a darparu nwyddau a gwasanaethau mewn perthynas â naw 'nodwedd warchoddedig' sydd fel a ganlyn:

Oedran, Anabledd, Ailbennu Rhywedd, Priodas neu Bartneriaeth Sifil, Beichiogrwydd neu Famolaeth, Hil neu Ethnigrwydd, Crefydd neu Gred, Rhyw, Cyfeiriadedd Rhywiol.

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn nodi bod yn rhaid i ni roi sylw dyledus i'r angen i:

- **ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth** ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf
- **hyrwyddo cyfle cyfartal** rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu
- **meithrin cysylltiadau da** rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu

Bydd cyflawni'r ddyletswydd yn golygu trin pobl yn ôl eu hanghenion unigol, cyn belled nad yw hyn yn mynd yn groes i ddarpariaethau eraill o fewn y Ddeddf. Felly, nid yw 'cydraddoldeb' yn golygu trin pawb yr un fath. Mae'n golygu deall a mynd i'r afael â'r rhwystrau gwahanol i gyfleoedd cyfartal y mae gwahanol bobl yn eu hwynebu fel bod pawb yn cael cyfle teg i gyflawni eu potensial. Nod cyffredinol y ddyletswydd cydraddoldeb yw sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei brif ffrydio i waith y coleg, ac y dylai hyn yn ei dro arwain at wasanaethau a chanlyniadau a ddarperir yn fwy priodol, gan gymryd cefndiroedd unigol i ystyriaeth.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yng Ngholeg Cambria

Mae CA&C yn gyfrifoldeb a rennir ar draws Coleg Cambria. Mae gan bob un ohonom ddealltwriaeth a dyletswydd i gynnal cydraddoldeb ac amrywiaeth i greu coleg gwirioneddol gynhwysol i bawb. Er mwyn creu diwylliant coleg cynhwysol, rydym wedi sefydlu strwythurau, polisiâu a phrosesau i sicrhau bod gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth yn cael eu dileu, bod cyfle cyfartal yn cael ei hyrwyddo, a'n bod yn meithrin cysylltiadau da rhwng ein cymuned.

Dylai pob agwedd ar ein sefydliad, o staff, i ddysgwyr, i lywodraethwyr, i randdeiliaid, ddeall ein hymrwymiad a'n dull o ymdrin â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Bydd cymuned Coleg Cambria i gyd yn cynrychioli ein natur gynhwysol.

Mae'r Gorfforaeth (Bwrdd y Llywodraethwyr) yn cydnabod eu cyfrifoldeb am Gydraddoldeb ac Amrywiaeth ac yn dirprwyo cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod rhwymedigaethau cyfreithiol a pholisi yn cael eu cyflawni i'r Prif Weithredwr. Mae'r adroddiad blynyddol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a gyflwynir i'r Llywodraethwyr yn arf monitro pwysig yn ogystal â sicrhau atebolrwydd.

Mae'r Dirprwy Brif Weithredwr (Profiadau Pobl a Diwylliant) yn cadeirio'r Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sydd ag aelodau o bob adran o'r coleg. Mae'r grŵp hwn yn gyfrifol am:

- Adolygu a chynghori ar bolisiâu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Craffu a monitro cynnydd amcanion Cydraddoldeb
- Rhoi sylwadau ar fentrau sy'n ymwneud â hyrwyddo Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn ogystal, mae amrywiaeth o grwpiau ffocws, sy'n rhan bwysig o gynorthwyo'r coleg i gyflawni diwylliant cynhwysol. Mae gan y coleg ei Gydlynnydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ymroddedig ei hun, a'u gwaith yw darparu cyngor a chymorth yn ogystal â gosod cynlluniau a monitro cynnydd.

2. Cenhadaeth a Gwerthoedd Cydraddoldeb

Yng Ngholeg Cambria rydym yn ymdrechu i fod yn un o'r colegau mwyaf rhagweithiol yn y Deyrnas Unedig o ran CA&C. Rydym am gael ein hadnabod am ein dull cynhwysol, ac ymfalchïo yn y ffordd y gallwn dynnu rhwystrau a chreu amgylchedd teg i bawb. Rydym wedi datblygu ein cenhadaeth gyffredinol i lywio ein holl waith CA&C.

Cenhadaeth Cydraddoldeb: Gwneud newidiadau craff a rhagweithiol er mwyn dod yn goleg cwbl gynhwysol yn ddiwylliannol, emosiynol, amgylcheddol ac addysgol.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi'i lunio drwy ein hegwyddorion a'n gwerthoedd sylfaenol yn ein dull o ymdrin â CA&C. Mae'r gwerthoedd hyn yn llywio sut rydym yn datblygu, monitro a gweithredu ein hamcanion.

Gwerthoedd Cydraddoldeb:

Croestoriadol a Chyfunol

Mae ein gweledigaeth ar flaen y gad o ran ein dull croestoriadol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Byddwn yn creu cymuned lle mae pawb yn cael eu gwerthfawrogi, a lle rydym yn deall y lluo o ffyrdd y mae nodweddion yn ffurfio hunaniaeth gyfan. Gan fwrw trem croestoriadol, gallwn weld sut mae hunaniaethau yn croestorri ac yn rhyngweithio i greu profiadau unigryw o orthrwm. Byddwn yn sicrhau ein bod yn defnyddio dull cyfunol o fynd i'r afael â gwahaniaethu, lle gall cymunedau gydweithio i greu amgylchedd lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi a'u cynnwys.

Emosiynol a Diwylliannol Ddeallus

Rydym yn falch o'n dealltwriaeth fanwl o sut mae profiad a hunaniaeth yn effeithio ar bobl. Byddwn yn sicrhau ein bod yn defnyddio ymwybyddiaeth o effaith profiadau ar allu pobl i gyrchu gwasanaethau, cynigion a dulliau gweithredu i'w llywio. Rydym yn defnyddio dull ystyriol o drawma a diwylliannol gymwys i sicrhau bod gan bawb fynediad teg er mwyn iddynt gael budd gwirioneddol o bopeth a wnawn.

Gwybodus a Chraff

Mae'n hanfodol bod ein holl waith cydraddoldeb yn cael ei lywio gan wybodaeth, ymwybyddiaeth a mewnwleidiad i'r cymunedau sy'n cael eu heffeithio ganddo fwyaf. Byddwn yn ymdrechu i ddyfnhau ein ffocws ar ddefnyddio ymchwil, polisi, data a mewnwleidiadau i lywio ein blaenoriaethau a'n camau gweithredu o dan yr agenda CA&C. Rydym hefyd yn ymdrechu i gyfrannu at gasglu gwybodaeth yn ehangach ar hunaniaeth a nodweddion drwy ymgymryd â'n hymchwil a'n dealltwriaeth ein hunain i'w lledaenu ledled y sector Addysg Bellach.

Rhagweithiol ac Ymatebol

Rydym yn ymdrechu i fod ar flaen y gad o ran CA&C mewn Addysg Bellach ledled y Deyrnas Unedig. Rydym am arwain mentrau arloesol a blaengar i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i bawb, o fewn cymuned Coleg Cambria a thu hwnt. Byddwn yn cael effaith gadarnhaol ar ein cymunedau lleol ac yn parhau i fod yn llais allweddol yn y sector ar bob mater sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.



3. Ein Pobl

Isod ceir data nodweddiadol ein cydweithwyr yma yng Ngholeg Cambria. Mae hyn yn rhoi trosolwg o wahanol nodweddion ein staff mewn gwahanol feysydd: rheolwyr, cymorth busnes, academiaidd. Rydym wedi sylwi ar anghysondeb yn ein data o ran aillbennu rhywedd, lle mae 17 aelod o staff wedi nodi eu bod yn drawsryweddol. Nodwn fod hyn yn debygol o fod yn anghywir oherwydd i'r cwestiwn gael ei gamddehongli ac rydym yn gweithio ar brosesau i wella cywirdeb y data hwn.

Rhywedd				
	Rheolwyr	Cymorth Busnes	Academaidd	Cyfanswm y Staff
Dynion	35	269	221	525
Merched	50	500	287	837

Cyfeiriadedd Rhywiol				
	Rheolwyr	Cymorth Busnes	Academaidd	Cyfanswm y Staff
Heterorywiol	69	590	378	1037
Hoyw neu Lesbiaidd	6	17	8	31
Deurywiol	1	14	3	18
Arall	0	5	0	5
Gwell gennyf beidio â dweud	9	143	119	271

Aillbennu Rhywedd				
	Rheolwyr	Cymorth Busnes	Academaidd	Cyfanswm y Staff
Do	1	9	7	17
Naddo	84	734	489	1307
Gwell gennyf beidio â dweud	0	26	12	38

Anabledd				
	Rheolwyr	Cymorth Busnes	Academaidd	Cyfanswm y Staff
Anabledd	5	56	37	98
Dim Anabledd	23	295	136	454
Gwell gennyf beidio â dweud	0	28	15	43
Heb ei Ddatgelu	57	390	320	767

3. Ein Pobl

Crefydd				
	Rheolwyr	Cymorth Busnes	Academaidd	Cyfanswm y Staff
Cristion	43	303	180	526
Anffyddiwr	1	17	11	29
Bwdhydd	0	2	3	5
Mwslim	0	1	1	2
Dim Cyswllt Crefyddol	30	288	168	486
Arall	0	12	4	16
Gwell gennyf beidio â dweud	11	146	141	298

Oedran				
	Rheolwyr	Cymorth Busnes	Academaidd	Cyfanswm y Staff
16-19	0	6	0	6
20-29	0	92	15	107
30-39	12	185	100	297
40-49	32	161	143	336
50-59	36	200	181	417
60-69	5	114	63	182
70+	0	11	6	17

3. Ein Pobl

Hil				
	Rheolwyr	Cymorth Busnes	Academaidd	Cyfanswm y Staff
Arall (nodwch os oes angen)	0	1	0	1
Arall / Prydeinig Arall - Arabaidd	0	1	0	1
Asiaidd / Asiaidd Prydeinig - Indiaidd	0	2	1	3
Asiaidd / Asiaidd Prydeinig - Tseiniaidd	0	3	1	4
Cymysg / Prydeinig Cymysg - Gwyn ac Asiaidd	0	1	1	2
Cymysg / Prydeinig Cymysg - Gwyn / Asiaidd	0	2	0	2
Cymysg / Prydeinig Cymysg - Gwyn / Du Affricanaidd	0	2	0	2
Cymysg / Prydeinig Cymysg - Gwyn / Du Caribiaidd	0	1	0	1
Cymysg / Prydeinig Cymysg Unrhyw Gefndir Cymysg Arall	0	3	2	5
Du / Du Prydeinig - Affricanaidd	0	5	2	7
Du / Du Prydeinig - Caribiaidd	0	0	1	1
Grŵp Ethnig Arall	0	2	0	2
Gwell gennyf beidio â dweud	0	21	11	32
Gwyn - Albanaidd	1	2	0	3
Gwyn - Arall	1	21	16	38
Gwyn - Cymreig	13	120	79	212
Gwyn - Gwyddelig	1	5	2	8
Gwyn - Gwyddelig Gogledd Iwerddon	1	0	0	1
Gwyn - Prydeinig	69	558	386	1013
Gwyn - Seisnig	0	18	6	24

4. Amcanion Cydraddoldeb

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028 yn nodi ein hamcanion cydraddoldeb. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn manylu ar ddatblygiad yr amcanion cydraddoldeb, yr ymgynghoriad a ymgymerwyd gennym, a sut y maent yn cynnal Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Mae ein hamcanion cydraddoldeb yn amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer gwella cydraddoldeb yng Ngholeg Cambria dros y pedair blynedd nesaf.

Ein hamcanion cydraddoldeb yw:



Amcan Un:

**Diwylliant o
Garedigrwydd**

Byddwn yn sicrhau bod diwylliant o garedigrwydd yn cael ei ymgorffori yn gyfannol ledled Coleg Cambria lle mae pob un yn elwa o'r egwyddorion: diogelwch, ymddiriedaeth, gonestrwydd, dealltwriaeth a chefnogaeth



Amcan Dau:

**Grymuso gyda
Gwybodaeth**

Byddwn yn grymuso ein cydweithwyr, ein myfyrwyr a'n cymunedau ehangach gyda gwybodaeth am hunaniaeth, profiad a diwylliant i'w galluogi i ddylanwadu ar ein cymunedau



Amcan Tri:

**Amgylcheddau
Cynhwysol**

Byddwn yn archwilio ac yn adolygu cynwysoldeb ein hamgylcheddau a'n hadeiladau yn rheolaidd i sicrhau bod pawb yn teimlo bod croeso iddynt yng Ngholeg Cambria



Amcan Pedwar:

**Cydraddoldeb, Amrywiaeth
a Chynhwysiant Craff**

Byddwn yn casglu data priodol i dynnu rhwystrau at gydraddoldeb ac ehangu dealltwriaeth o amrywiaeth



Amcan Pump:

Sicrhau Tegwch

Byddwn yn creu tegwch i bawb drwy nodi a thynnu rhwystrau, a defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth ymdrin â thaith dysgwyr a gweithwyr.

5. Effaith

Er mai ond ym mis Ebrill y cyhoeddwyd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, rydym wedi gweld effaith sylweddol yn ein Hamcanion Cydraddoldeb yn ystod blwyddyn academaidd 23/24. Isod ceir uchafbwyntiau'r effaith rydym wedi'i chael o dan bob un o'n hamcanion cydraddoldeb.



Diwylliant o Garedigrwydd

- Datblygwyd dwy sesiwn hyfforddiant i staff ar gam-drin cyfoedion ar gyfer y sector Addysg Bellach
- Cyd-gyflwynwyd Gweithdy Cymru Gyfan ar gam-drin cyfoedion
- Datblygwyd pecyn cymorth cam-drin cyfoedion ar gyfer y Sector Addysg Bellach
- Cyflwynwyd yng Nghynhadledd Colegau Cymru gydag Estyn ar gam-drin cyfoedion
- Crëwyd dulliau newydd i ddysgwyr ddweud am achosion o gamymddwyn rhywiol a chasineb. Cafodd 98 o ddysgwyr gymorth yn sgil hynny
- Datblygwyd gweithgor i wella cymorth i ddysgwyr Saesneg i Siaradwyr leithoedd Eraill (SSIE)
- Cymerodd 250 o staff a myfyrwyr ran mewn ras liwiau i ddathlu gŵyl Holi
- Ymunodd 500 o fyfyrwyr â'n Gŵyl Cambria, lle cawsom fan tawel ar thema gwyliau'r haf o'r enw Meysydd Heddwch
- Noddwyd Chester Pride ac ymunodd 10 o fyfyrwyr â ni yn yr orymdaith
- Cydweithwyd gyda Balchder Wrecsam a Chyngor Wrecsam i gynnal sesiynau crefft a sgysiau i roi llais gweithredol i'n dysgwyr yn y Balchder Wrecsam cyntaf
- Datblygwyd Cydweithfeydd Diwylliant i rannu profiadau ar Ffydd, Diwylliant ac Amrywiaeth a fynychwyd gan 350 o fyfyrwyr a staff
- Cyflwynwyd digwyddiad integreiddio SSIE ar thema Alice in Wonderland i dynnu sylw at y cymorth sydd ar gael i ddysgwyr SSIE
- Lanswyd dull cadarnhaol newydd at ymddygiad drwy Ddull Graddedig, Polisi Ymddygiad Cadarnhaol newydd, Cod Ymddygiad Myfyrwyr newydd
- Cynhaliwyd 'Y Sgwrs Fawr' lle daeth 15 o fyfyrwyr a 7 aelod o staff ynghyd i drafod ymddygiad dysgwyr



Grymuso gyda Gwybodaeth

- Cynhaliwyd 129 o sesiynau Caplaniaeth i 1742 o ddysgwyr ar draws pob safle
- Mynychodd 317 o staff a myfyrwyr sgysiau Diwrnod Cofio'r Holocaust ar draws pob safle
- Cynhaliwyd 10 Diwrnod Ymsefydlu Cynhwysiant i 105 o staff newydd yn y coleg
- Galluogodd cynllun peilot ar ymgorffori cwricwlwm gwrth-hiliol i 9 aelod o staff gael hyfforddiant gwrth-hiliaeth penodol
- Cafodd pob Tiwtor SSIE eu hyfforddi mewn Arferion Ystyriol o Drawma penodol ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches
- Cafodd 60 o staff Llesiant a Chymorth eu hyfforddi mewn Iechyd Meddwl Pobl Ddu ac Ethnigrwydd Leiafrifol
- Cynhaliwyd 40 awr o Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i dros 400 aelod o staff
- Cynhyrchwyd Podlediad Cydraddoldeb Myfyrwyr gyda'r Cydlynnydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, y Caplan a Swyddogion Cydraddoldeb Myfyrwyr
- Cafwyd ymgyrch Eid al Fitr ar y cyfryngau cymdeithasol oedd yn amlygu'r hyn y mae Ramadan yn ei olygu i ddysgwyr Mwslimaidd
- Hyfforddiant ar Arferion Cynhwysol a Chydraddoldeb i 40 o gynrychiolwyr myfyrwyr
- Cynhaliwyd sesiynau penodol ar gam-drin cyfoedion i holl fyfyrwyr Llysfasi

5. Effaith



Amgylcheddau Cynhwysol

- Cynhaliwyd 6 sesiwn Viva LHDTTC+ o safleoedd Coleg Cambria yn cefnogi cydlyniant rhwng y grŵp ieuencid a'n myfyrwyr
- Datblygwyd cysylltiadau â Thîm Cymorth Ieuencid Lleiafrifoedd Ethnig Lleol trwy gynnal tripiâu haf ar gyfer 90 o blant, pobl ifanc a theuluoedd
- Sefydlwyd y Panel Profiadau Bywyd a ddaeth â 30 aelod o staff o gefndiroedd amrywiol at ei gilydd i gynrychioli eu cymuned i'r coleg
- Darparwyd 8 sesiwn Llais Myfyrwyr SSIE i 230 o ddysgwyr SSIE i dynnu sylw at gymorth a gwranddo arnyh nhw
- Etholwyd tri Swyddog Cydraddoldeb Myfyrwyr a weithiodd gyda'r coleg i gynrychioli safbwyntiau myfyrwyr ar gydraddoldeb
- Datblygwyd Grŵp Myfyrwyr Paganaid newydd ar ôl sylwi ar gynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n uniaethu fel Paganiaid
- Crëwyd arddangosfeydd ar safleoedd y coleg i arddangos yn weledol ein gwerthoedd a'n hymrwymiad i gydraddoldeb
- Adnewyddiad o'n Statws Cyflogwr Hyderus o ran Anabledau



Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Craff

- Cafwyd casgliad 'cryf' i'n harchwiliad mewnol ar gyfer CA&C heb unrhyw argymhellion ac 8 maes ar gyfer arfer gorau
- Datblygwyd adroddiad ar 'Golegau Cynhwysol' a oedd yn amlinellu safbwynt dysgwyr ar gynhwysiant, a gyflwynwyd i'r Uwch Dîm Rheoli
- Gwelwyd cynnydd o 520% yn nifer y bobl a bleidleisiodd yn ein Holiadur LIFE yn Nhymor Dau a 61% yn Nhymor Tri
- Cynhaliwyd sesiwn i'n Llywodraethwyr ar ein dull o weithredu CA&C a nodwyd blaenoriaethau ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Gwnaed rhagor o ymchwil i gam-drin cyfoedion i archwilio rhwystrau dysgwyr rhag dweud amdanyh nhw
- Cyflwyniad yn 'Cyflwyno Cynhadledd Cynllun Gweithredu LDHDTTC+' Polisi Mewnwelediad Cymru fel astudiaeth achos o Gynhwysiant LHDTTC+ mewn Addysg
- Bu'r Caplan yn cynrychioli Coleg Cambria yn yr Eisteddfod Ryngwladol fel rhan o Fforwm Rhyng-ffydd Gogledd Cymru
- Datblygwyd ystod o friffiau ac adroddiadau CA&C i dynnu sylw at bynciau allweddol e.e. Cynllun Rwanda, Gwrth-Semitaeth, Trawsfobia
- Cyflwynwyd dadansoddiadau manwl o'n data am fylchau nodweddiadol i'r Uwch Dîm Rheoli bob mis
- Dechreuwyd datblygu Fframwaith sy'n Ddiwylliannol Gymwys ar y cyd â Diverse Cymru, a chyfwelwyd â 6 aelod o staff a dysgwyr ar yr hyn y mae diwylliant yn ei olygu iddyn nhw
- Cwblhawyd 42 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer polisiau ac arferion newydd
- Cynhaliwyd Gweithdy CA&C Colegau Cymru ar safle lâl, ac ysgrifennodd ein Cydlynnydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth flog ar gyfer Colegau Cymru am y digwyddiad hwn
- Bu ein Cydlynnydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth mewn cyfarfodydd Grŵp Cynghori Ymarferwyr ar gyfer Canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ysgolion ar Gefnogi Dysgwyr Trawsrywedol ac Anneuaid

5. Effaith



Sicrhau Tegwch

- Rhoddwyd cymorth cydraddoldeb ac amrywiaeth i 13 o Gyfarwyddwyr Cwricwlwm ar ymgorffori CA&C o fewn cwricwlwm fel rhan o'r broses ADRE
- Gwnaeth canolbwyntio ar gydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn y cwricwlwm cydlynol gefnogi tiwtoriaid i ystyried CA&C wrth ddatblygu'r cwricwlwm a chyflwyno addysgu a dysgu
- Cyflawnwyd 41.3% o gamau ein Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol, gyda 54.4% o'r camau ar y gweill
- Cafodd pob Cyfarwyddwr Cwricwlwm hyfforddiant ar CA&C yn y cwricwlwm
- Cynigiodd y Gaplaniaeth gefnogaeth un i un i 72 o ddysgwyr
- Cafwyd 125 o atgyfeiriadau am gymorth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Cynhyrchwyd Adroddiadau Bwlch Cyflog Rhywedd, Anabledd ac Ethnigrwydd ac ni nodwyd bwlch cyflog anabledd
- Cynhaliwyd peilot Recriwtio Cynhwysol i wneud datblygiadau arloesol i'r broses recriwtio
- Ychwanegwyd CA&C ar holl agendâu Cynghorau Safle

6. Cynllun Gweithredu

Cyhoeddwyd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ym mis Ebrill 2024. Mae hyn yn golygu bod y ffocws ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf wedi bod ar ddatblygu'r cynllun, a chreu cynllun gweithredu i gyd-fynd ag ef. Rhwng mis Ebrill 2024 a mis Medi 2024 (ar adeg ysgrifennu), rydym wedi datblygu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb cydlynol sy'n nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd dros y 12 mis nesaf i wneud cynnydd tuag at ein hamcanion cydraddoldeb.

Isod mae ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb. Byddwn yn ei ddiweddarau ac yn ei gyhoeddi'n flynyddol yn y ddogfen hon, ochr yn ochr ag effaith ddiweddaraf Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb y flwyddyn flaenorol.



Amcan Un: Diwylliant o Garedigrwydd

Arweinydd yr Amcan: Cath Sullivan

Targed	Arweinydd y Targed	Camau	Dechrau	Diwedd
Llunio dull cydlynol o atal, riportio ac ymateb i gam-drin cyfoedion	Alice Churm	Adroddiad ymchwil i Gam-drin Cyfoedion yn Cambria System i fyfyrwyr riportio Cam-drin Cyfoedion Ymgyrch myfyrwyr am Gamdrin Cyfoedion Sesiynau am Gam-drin Cyfoedion wedi'u gwreiddio yn MADE Monitro data am Gam-drin Cyfoedion Staff i ymgymryd â hyfforddiant Cam-drin Cyfoedion	Mai 24 Medi 24 Medi 24 Hyd 24 Medi 24 Hyd 24	Medi 24 Meh 25 Maw 25 Medi 25 Medi 25 Meh 25
Sicrhau bod ein holl ddarpariaethau cymorth yn ymgorffori dealltwriaeth o hunaniaeth, profiadau a nodweddion mewn modd cyfannol	Bethan Charles	Fframwaith Cymhwysedd Diwylliannol wedi'i ddatblygu Archwilio barn myfyrwyr am gymorth Grŵp ffocws gyda swyddogion myfyrwyr am gymorth Staff gwasanaethau cymorth i ymgymryd â hyfforddiant CA&C Defnyddio Holiadur LIFE i deilwra cefnogaeth Parhau â Gweithgor SSIE	Mai 24 Medi 24 Hyd 24 Medi 24 Medi 24 Tach 24	Ion 25 Meh 25 Rhag 24 Meh 25 Mai 25 Meh 25
Dathlu diwrnodau cydraddoldeb allweddol drwy gydol y flwyddyn gyda gwell gwybodaeth, digwyddiadau a gweithgareddau	Emma Stedman / Mark Hughes	Datblygu Calendr CA&C Postiadau cyfryngau cymdeithasol penodol ar gyfer diwrnodau cydraddoldeb allweddol Rhagor o ddyddiadau CA&C yn Rhaglen MADE Canolbwyntio ar CA&C mewn Cyfarfodydd Cefnogi Myfyrwyr Ehangu digwyddiadau cydweithfeydd diwylliant ar draws safleoedd eraill Taenlen a rennir ar gyfer trawsgydweithredu	Awst 24 Medi 24 Medi 24 Gorff 24 Medi 24 Gorff 24	Medi 24 Meh 25 Hyd 24 Gorff 25 Gorff 25 Medi 24
Datblygu cyfleoedd i ddysgwyr, cydweithwyr a'r gymuned ehangach gymryd rhan weithredol mewn creu cymdeithas fwy teg	Emma Roberts	Hyrwyddo'r Panel Profiadau Bywyd Monitro effaith y Panel Profiadau Bywyd Monitro asiantaethau allanol o ran CA&C Adnewyddu ein marciwr Cyflogwr Hyderus o ran Anableddau	Medi 24 Medi 24 Medi 24 Gorff 24	Hyd 24 Meh 25 Meh 25 Medi 24
Deall profiadau newidiol dysgwyr i ymgorffori a hyrwyddo parch a goddefgarwch	Lizzie Stevens	Parhau â'r Sgwrs Fawr ar wahanol safleoedd Prosiect Alinio Parch gyda'r cynllun gweithredu hwn Datblygu hyfforddiant staff ar ymddygiad dysgwyr	Ion 24 Hyd 24 Tach 24	Mai 24 Rhag 24 Chwe 25

6. Cynllun Gweithredu



Amcan Dau: Grymuso â Gwybodaeth

Arweinydd yr Amcan: Steven Peacock

Targed	Arweinydd y Targed	Camau	Dechrau	Diwedd
Creu a chyflwyno rhaglen hyfforddiant cydraddoldeb gynhwysfawr i gydweithwyr	Alice Churm	Cynllunio pa hyfforddiant CA&C sydd angen ei ddatblygu Datblygu cyrsiau hyfforddi ar-lein Hysbysebu hyfforddiant CA&C ar Happeo Parhau i weithio ar brosiect Dull Graddedig	Medi 24 Medi 24 Awst 25 Medi 24	Hyd 24 Awst 25 Awst 25 Meh 25
Sicrhau bod dealltwriaeth o hunaniaeth, profiadau a diwylliant yn rhan annatod o'r cwricwlwm a'r rhaglen MADE	Daniel Reading / Steven Peacock	Datblygu adnoddau a chynnwys CA&C ar gyfer MADE Datblygu Sioe Deithiol Gynhwysol Proses a hyfforddiant ar Gwricwlwm Amrywiol Cynyddu'r cyfleoedd i gynlluniau rhannu staff	Gorff 24 Medi 24 Medi 24 Ion 25	Medi 24 Chwe 25 Gorff 25 Gorff 25
Meithrin iaith cydraddoldeb a rennir wedi'i llywio gan bolisi'r sector a mewnwelediadau i alluogi sgwrs	Alice Churm	Adolygu Geiriadur CA&C fel adnodd Adrodd o Holiadur LIFE i dynnu sylw at iaith Datblygu pecynnau cymorth ar gyfer Cam-drin Cyfoedion i gefnogi'r defnydd o iaith	Tach 24 Hyd 24 Rhag 24	Rhag 24 Mai 25 Meh 25
Datblygu cyrsiau rhan-amser sy'n ymwneud â chdraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i rymuso ein cymunedau ehangach	Sean Finnigan	Sesiynau rhan-amser CA&C yn yr ysgol fusnes Sefydlu Cynhadledd Cynhwysiant ar gyfer pobl allanol Parhau â hyfforddiant Ystyriol o Drawma i'r gymuned	Medi 24 Tach 24 Medi 24	Awst 25 Gorff 25 Gorff 25

6. Cynllun Gweithredu



Amcan Tri: Amgylcheddau Cynhwysol

Arweinydd yr Amcan: Alex Evans

Targed	Arweinydd y Targed	Camau	Dechrau	Diwedd
Sefydlu proses ar gyfer archwiliadau cynhwysiant blynyddol o'n holl safleoedd, gofodau a chynllunio yn y dyfodol a chysylltu â sefydliadau arbenigol i lywio hyn	Lizzie Stevens / Alex Evans	Archwiliadau blynyddol mynediadau gyda chwmni allanol Cynnal archwiliadau mynediadau ar gyfer 24/25 Ymrwmo i amcangyfrif cost archwiliad mynediad blynyddol Adolygu archwilio dolenni clyw Adolygu'r archwiliad cynhwysiant blaenorol Sefydlu cylch ar gyfer cynnal archwiliadau Ymgorffori Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb wrth gynllunio cyfleusterau Archwiliad Synhwyraidd Blynyddol	Medi 24 Medi 24 Rhag 24 Medi 24 Medi 24 Rhag 24 Tach 24 Medi 24	Gorff 25 Gorff 25 Chwe 25 Gorff 25 Gorff 25 Chwe 24 Ion 25 Gorff 25
Adeiladu cyfleusterau priodol ar gyfer pob hunaniaeth ar bob safle, gan gynnwys seilwaith a chynigion	Bethan Charles / Alex Evans	Adolygu cyfleusterau gyda'r Panel Profiadau Bywyd Cynnwys cynhwysiant mewn cynllunio yn y dyfodol Cynnwys cwestiynau am gyfleusterau yn Holiadur LIFE	Tach 24 Medi 24 Medi 24	Tach 24 Gorff 25 Mai 25
Defnyddio technolegau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg i arloesi a gwella'r ddarpariaeth cydraddoldeb	Emma Stedman / Sean Finnigan / Adam Cleaver	Sefydlu ein technolegau CA&C cyfredol Ymchwilio i arfer da ar gyfer technoleg CA&C Sefydlu heriau mewn meysydd CA&C ar gyfer y coleg ar hyn o bryd Archwilio meddalwedd a thechnoleg newydd Cadw llygad yn rheolaidd am dechnoleg newydd	Medi 24 Medi 24 Rhag 24 Medi 24 Medi 24	Meh 25 Meh 25 Meh 25 Meh 25 Meh 25
Adolygu ein cyfathrebiadau i archwilio a deall effaith yr iaith yr ydym yn ei defnyddio	Llinos Roberts	Llunio canllawiau arddull Cymraeg a Saesneg plaen	Medi 24	Meh 25
Arddangos ein hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn weledol i gyflwyno Coleg Cambria fel lle diogel i bawb	Emma Stedman	Proses newydd ar gyfer postio diwrnodau ymwybyddiaeth a dathlu ar y cyfryngau cymdeithasol Gosod arwyddion newydd sy'n hyrwyddo gwerthoedd CA&C Addewid ac ymgyrch Mannau Diogel	Gorff 24 Gorff 24 Medi 24	Medi 24 Medi 24 Medi 25

6. Cynllun Gweithredu



Amcan Pedwar: Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Craff Arweinydd yr Amcan: Alice Churm

Targed	Arweinydd y Targed	Camau	Dechrau	Diwedd
Adolygu ein dulliau o gasglu data i sicrhau bod data cydraddoldeb gweithwyr a dysgwyr yn gywir ac yn briodol	Alice Churm / Emma Roberts	Ymgorffori ffurflen fonitro CA&C yng ngheisiadau myfyrwyr Adolygu'r cwestiwn i staff ynglŷn â thrawsrywedd Ymchwilio i Holiadur LIFE i'r staff	Gorff 24 Gorff 24 Tach 24	Rhag 24 Medi 24 Medi 25
Defnyddio data, ymchwil a pholisi i lywio'r holl gynllunio cydraddoldeb a pharhau i fod yn wybodus ynglŷn â thirwedd newidiol CA&C	Alice Churm	Ymgorffori dysgu o recriwtio cynhwysol mewn Adnoddau Dynol Parhau i gymryd rhan mewn prosiectau allanol Cynllun prosiect ymchwil CA&C ar gyfer y flwyddyn nesaf Datblygu Adroddiad Holiadur LIFE 24/25 Creu gofod Happeo ar gyfer diweddariadau polisi Llunio dau adroddiad ymchwil pynciau llosg CA&C	Hyd 24 Medi 24 Medi 24 Hyd 24 Tach 24 Hyd 24	Mai 25 Awst 25 Meh 25 Gorff 25 Rhag 24 Mai 25
Adolygu ein canllawiau Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb (AEG), ac ehangu'r defnydd o AEG y tu allan i bolisiâu i archwilio'r holl brosesau a gwasanaethau yn y coleg	Alice Churm	Ymgorffori Dulliau Ystyriol o Drawma mewn proses AEG Adolygu fformat AEG a chreu pecyn cymorth newydd Cyflwyno AEG newydd i staff a chael eu cymeradwyo Datblygu hyfforddiant i staff ar ymgymryd ag AEG Trwytho'r Panel Profiadau Bywyd yn y broses AEG	Gorff 24 Gorff 24 Awst 24 Hyd 24 Gorff 24	Medi 24 Medi 24 Hyd 24 Rhag 24 Hyd 24
Ehangu nifer yr achosion o gydraddoldeb o fewn ein strwythurau llywodraethu i sicrhau ei fod wedi'i wehyddu o fewn popeth a wnawn	Lizzie Stevens	Adolygu'r Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i ganolbwyntio ar y cynllun hwn Targed Cynlluniau Gwella Parhaus gorfodol 25/26 ar CA&C Datblygu sesiwn gyda'r llywodraethwyr i archwilio CA&C Adroddiad Hunan-asesu CA&C coleg cyfan i wneud argymhellion	Gorff 24 Mai 25 Medi 24 Gorff 24	Awst 24 Medi 25 Gorff 25 Tach 24
Defnyddio offer a fframweithiau meincnodi cenedlaethol i fonitro ein sefyllfa sy'n ymwneud â chydaddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant	Alice Churm	Datblygu ac uwchsgilio staff CA&C perthnasol Cwblhau Siarter CA&C Cymdeithas y Colegau Adnewyddu ein marciwr Cyflogwr Hyderus o ran Anabledau Archwilio nodau siarter ac offer meincnodi	Medi 24 Medi 24 Gorff 24 Ion 25	Medi 25 Ion 25 Medi 24 Ebr 25

6. Cynllun Gweithredu



Amcan Pump: Sicrhau Tegwch

Arweinydd yr Amcan: Cath Sullivan

Targed	Arweinydd y Targed	Camau	Dechrau	Diwedd
Darparu cymorth a phrofiad dysgu priodol ar gyfer llwybrau nad ydynt yn rhai Addysg Bellach	Steven Peacock / Katie Griffiths	Gwella prosesau ar gyfer Dysgu yn y Gwaith a Chydweithredu Cymorth Dysgu Mewnbwn Dysgu yn y Gwaith - Adroddiad hunan-asesu gan dynnu o arolygon cyflogwyr a dysgwyr Adolygu proses bontio Addysg Uwch ar y cyd â Phrifysgol John Moores Lerpwl Datblygiad proffesiynol parhaus CA&C wedi'i dargedu ar gyfer staff Addysg Uwch a Dysgu yn y Gwaith Lansio Holiadur LIFE mewn Addysg Uwch Adolygu ymatebion Holiadur LIFE Addysg Uwch i gynllunio ar gyfer cymorth	Medi 24 Medi 24 Medi 24 Ion 25 Medi 24 Hyd 24	Medi 25 Rhag 24 Gorff 25 Meh 25 Hyd 25 Mai 25
Darparu profiad pontio wedi'i deilwra i sicrhau bod dysgwyr o gymunedau amrywiol yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u cynnwys wrth iddynt ddechrau ar eu taith yn y coleg	Bethan Charles / Vicky Edwards	Peilota gweithgareddau pontio wedi'u targedu ar gyfer cymunedau amrywiol	Ion 25	Mai 25
Datblygu a gweithredu arferion recriwtio a dilyniant cyflogaeth arloesol gyda'r nod o wella cynwysoldeb a hygyrchedd trwy gydol pob cam o'r daith i weithwyr	Joanne Freeman	Llunio adroddiad recriwtio cynhwysol Datblygu prosiect i dreialu recriwtio cynhwysol Cyflwyno recriwtio cynhwysol ymhellach Gweithredu recriwtio dienw	Mai 23 Ebr 24 Ion 25 Medi 24	Rhag 23 Rhag 24 Gorff 25 Gorff 25
Adolygu ein bylchau cyflog rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd ac ymgymryd â chamau a nodwyd i leihau'r bylchau	Emma Roberts	Llunio Adroddiad Bwlch Cyflog Rhywedd 23/24 Llunio Adroddiadau Bwlch Cyflog Anabledd a Hil 23/24 Ymgorffori cynllun gweithredu 2023 a 2024 yn y cynllun hwn	Medi 24 Medi 24 Ion 25	Rhag 24 Rhag 24 Gorff 25
Ehangu ein dangosfwrdd DICE i adolygu, monitro a thargedu ymyrraeth ar draws bylchau a nodwyd	Alice Churm	Rhoi ffurflen fonitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar waith Mewnbynnu data Holiadur LIFE yn EBS Adolygu casglu dulliau data Arolwg LIFE	Medi 24 Mai 25 Mai 25	Tach 24 Gorff 25 Gorff 25



ADRODDIAD EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

2023-2024



WWW.CAMBRIA.AC.UK